

[Gyda chennad perchenogion y *Saturday Westminster Gazette*.]

## YMSON MAM.

“ Ië, chwithig iawn yw gweld y stol  
 Yn wag, lle 'steddai John,  
 A thybio'r oriau maith sy'n ol  
 Cyn gwela'i wyneb llon,  
 Bob dydd, wrth fynd a'r fuwch i'r dŵr,  
 Bob tro daw'r gieir i'r tŷ,  
 Nis gallaf lai na meddwl, siwr  
 Ble mae fy machgen i.  
 Rhagorach 'crwt' na'm machgen John,  
 Mi wn, erioed ni fu. . . . .

“ A phan rwy'n methu cysgu'r nos,  
 A'r glaw yn lluchio'r nen,  
 Dychmyga'i weld mewn gwaedlyd ffos  
 Heb gysgod uwch ei ben.  
 Ac yna'n ddwys, drwy gymorth ffydd,  
 Fy ngweddi gwyd i'r Ne'  
 Am weld o'm machgen bach ryw ddydd  
 Yn holliach eto 'i dre,—  
 Rhaid, rhaid, oedd iddo fynd i'r gad,  
 Rwy'n falch o hono 'fe. . . . .

“ Ac weithiau ceisiaf furmur cân,  
 A thafu 'm cur i'r gwynt ;  
 Rhaid porthi'r moch a'r gwyddau mân  
 Yn gyson megis cynt,  
 A rhaid yw gweu hosanau tew,  
 A darpar moethau lu,  
 Er gwneud yn glyd ein bechgyn glew,  
 Yn oerni'r gaeaf du.  
 Dyledswydd mam yw cario'r groes  
 Heb gŵyn—a chadw tŷ.”

“BUCKS READER.”

Argraffwyd y gân uchod yn y “*Saturday Westminster Gazette*” Hydref 24ain, 1914, fel cyfieithiad o “*Monologue of a Devonshire Mother*” yn y *gystadlueaeth yn y Problems page* ar “*What the Women Said*” yn rhifyn yr wythnos flaenorol. “*Mr. Wilson Grier's monologue of a Devonshire Mother*,” meddai'r cyfieithydd, “*seems applicable to many a home and I took the trouble of putting it into the mouth of a Welsh mother . . . The sentiments expressed therein are re-echoed in many a cottage these heart-rending days.*” Ni roddes yr awdur (neu'r awdures) ei enw.